

## IEUAN ap IEUAN ap MADOG (fl. 1547-87), copiydd llawysgrifau

**Enw:** Ieuan ap Ieuan ap Madog  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** copiydd llawysgrifau  
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** Evan David Jones

Ceir y cyfeiriad cyntaf ato yn 1547, pan brynodd dyddyn a elwid Tire nant y Krynwyth ym mhlwyf Llangynwyd, Sir Forgannwg. Y pryd hwnnw preswyliai ym mhlwyf y Betws, lle yr oedd gan ei dad a'i frodyr ryw gymaint o ffermydd. Perthynai i gylch pwysig o gopiwyr llawysgrifau ym Morgannwg ar derfyn yr 16eg ganrif. Ef, yn 1574, a ysgrifennodd lawysgrif Llanstephan 171 sy'n cynnwys testunau rhyddiaith fel ' Ystori Owain ab Urien,' ' Ystori y Llong Foel,' a ' Saith Doethion Rhufain.' Ef hefyd a ysgrifennodd y copi anghyflawn o'r ' Marchog Crwydrad ' yn llawysgrif Llanstephan 178. Dywedai [Egerton Phillimore](#) mai o gylch 1575 yr ysgrifennwyd hon, ond y mae'n rhaid ei gosod ryw 10 mlynedd yn ddiweddarach. Cyhoeddwyd *Le Voyage du chevalier errant*, gan Jehan de Cartheny, yn Antwerp yn 1557. Cyfieithwyd ef yn Saesneg gan William Goodyear a chyhoeddwyd y cyfieithiad am y tro cyntaf yn 1581. Cydnebydd y copiydd mai o gyfieithiad Saesneg Goodyear y cymerwyd y testun Cymraeg. Yr oedd papurau eraill yn llaw Ieuan ab Ieuan wedi eu gwnïo yng nghlawr y llawysgrif hon. Gwahanwyd hwy yn ystod y ganrif ddiwethaf, ond y maent ar gael yn y Llyfrgell Genedlaethol (N.L.W. MS. 280 a dogfen Lloyd Verney Rhif 20). Cynhwysant gyfrifon trethiant yn Llangynwyd yn 1584, copïau o weddïau yn cynnwys ' Llurig Siarls,' ' Emyn Curig,' a manylion am hynafiaid y copiydd. Gyda hwy hefyd y mae ymrwymiad gan Ieuan ab Ieuan i dalu swm o arian i [Antoni Powel](#), Llwydarth, yn 1587.

### Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

### Ffynonellau

*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, i, 229-30

G. T. Clark, *Cartae et Alia Munimenta quae ad Dominium de Glamorgan pertinent* (1910), v, 1974-5

W. de Gray Birch, *A Descriptive Catalogue of the Penrice and Margam Abbey Manuscripts in the possession of Miss Talbot of Margam* (Llundain 1893-1905), iii, 24-9; iv, 189

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733263](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

